Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarfod: | Bwrdd Plismona | |
| Lleoliad: | Ystafell Gynadledda SCHTh | |
| Dyddiad: | 16 Ionawr 2017 | |
| Amser: | 09:00 – 10:40 | |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA)<br>Prif Gwnstabl Mark Collins (PG) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM)<br>Miss Mair Harries, Cymorth Gweithredol, SCHTh (CG) |
| **Ymddiheuriadau:** | Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA)<br>Arol. Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS) |

**CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 12/12/16**

| Rhif Cam Gweithredu | Crynodeb | Cynnydd |
|---|---|---|
| **PB 2093** | **Trafod galluoedd arbenigol mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona yn y dyfodol** | **Byddwn ni'n parhau â'r mater yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona** |
| **PB 2094** | **Symud y Bwrdd Plismona a drefnwyd ar gyfer 3 Ionawr 2017 i'r wythnos yn cychwyn 9 Ionawr a'r CHTh i adolygu'r rhestr camau gweithredu a'r blaenraglen waith cyn y cyfarfod cyntaf** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2095** | **Adolygu cylch gorchwyl y Bwrdd Plismona yn y cyfarfod cyntaf ym mis Ionawr** | **Cwblhawyd – bydd yn cael ei drafod yng nghyfarfod heddiw** |
| **PB 2096** | **Trefnu cyfarfod mewnol er mwyn mynd ar drywydd camau gweithredu o'r uwch-gynhadledd cynllunio ariannol ar gyfer yr wythnos yn cychwyn 9 Ionawr 2017** | **Cwblhawyd – uwchgynhadledd yn hwyrach heddiw** |

**PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 16/01/17**

| Rhif Penderfyniad | Crynodeb o'r Penderfyniad | I'w symud yn ei flaen gan |
|---|---|---|
| **PB T2 19** | **Derbyn yn argymhelliad a Dyfed-Powys i godi £95 ar gyfer y cwrs RIDE, sef y cyfartaledd** | **CC** |

| | | |
|---|---|---|
| | **cyffredinol ac sy'n unol â Heddlu De Cymru** | |
| **PB T2 20** | **Cymeradwyodd y CHTh wobrwyo'r cytundeb ar gyfer gwasanaethau dadansoddol fforensig fel sy'n cael ei amlinellu yn yr adroddiad** | **PSA** |
| **PB T2 21** | **Gwobrwyo'r cytundeb ar gyfer gweithfan delweddu olion bysedd i Foster and Freeman am gost o £72,380.99 heb gynnwys TAW** | **PSA** |
| **PB T2 22** | **Gwneud cynnydd o ran prynu tir ar gyfer dalfa Sir Gaerfyrddin** | **Cyfarwyddwr Ystadau** |

## 2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr a materion yn codi

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

PB 2087: Cysylltiad Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu â thrin cwynion. Mae cyfarfod wedi'i drefnu gyda Jan Williams a fforwm Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu o fewn yr wythnosau nesaf – cam gweithredu ar waith.

PB 2088: Craffu ar gwynion a monitro perfformiad mewn perthynas â hwy. Mewn perthynas â'r Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus, ystyriwyd pa un ai a fyddai'n ddoeth i gael ymagwedd gyson ledled Cymru. Pan holodd y PG pa un ai a oedd thema o fewn yr UCB, dywedodd y CHTh bod llawer o bobl sy'n cefnogi'r heddlu'n teimlo eu bod wedi cael eu siomi – cwblhawyd y cam gweithredu.

PB 2090: Datblygu'r rhaglen Ysgogi Ein Hieuenctid. Mae'r CHTh wedi ariannu£12,000 o weithgareddau wythnos o hyd yn y pedair sir. Mae'r CHTh yn poeni pa mor effeithiol ydyw. Yn ystod y bythefnos ddiwethaf, roedd y CHTh wedi cwrdd â phob un o'r rheolwyr troseddau ieuenctid o fewn yr awdurdodau unedol ac mae angen iddo edrych ar ffyrdd o symleiddio hynny'n weithgarwch parhaus yn hytrach na digwyddiadau untro. Bethan James yw'r cydlynydd cyswllt ysgolion o fewn yr heddlu, a bydd hi'n arwain ar hyn. Gweithredu lefel is yw hyn gyda swm bach o arian - cam gweithredu cyfredol.

PB 2092: Cwynion ynghylch trwyddedu arfau saethu. Cwblhawyd y cam gweithredu.

## 3. Diweddariad y Prif Gwnstabl

Cytunwyd y byddai'r PG yn rhoi copi o'r diweddariad gweithredol i'r CHTh cyn y cyfarfod. Ni ddylid rhannu'r ddogfen sensitif hon yn ehangach.

Rhoddodd y PG drosolwg o faterion sefydliadol, gan gynnwys 6 swyddog / aelod staff sydd wedi'u hatal o'u gwaith ar hyn o bryd. Dywedodd y PG y byddai'r Dirprwy Brif Gwnstabl newydd, Darren Davies, yn cychwyn ei swydd ddiwedd Chwefror 2017, ond ei

fod yn ymweld â’r heddlu’n wythnosol er mwyn paratoi ar gyfer ei rôl. Roedd Byrddau Uwch-arolygwyr a Phrif Arolygwyr wedi’u trefnu ar gyfer yr wythnosau i ddod.

Yn ogystal, rhoddwyd trosolwg o ddigwyddiadau gweithredol allweddol, gan gynnwys diweddariadau mewn perthynas â nifer o unigolion coll, tân angheuol mewn tŷ yng Ngheredigion a byrgleriaeth a gyflawnwyd yn Sir Benfro tra bod preswylwyr yn y tŷ. Yn ogystal, dywedodd y PG y bu defnydd da o adnoddau dros gyfnod y Nadolig a’r Flwyddyn Newydd, gyda swyddogion yn ymateb i alwadau 999 o fewn 20 munud 90% o’r amser. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â buddsoddi mewn offer fideo yn y car. Archwiliwyd i hyn, ond awgrymodd y PG y byddai defnyddio camerâu fideo a wisgir ar y corff o gymorth.

Cytunwyd y byddai datganiad i’r wasg yn cael ei rannu ar ôl y cyfarfod er mwyn nodi cyfarfod Bwrdd Plismona cyntaf y PG.

**Cam gweithredu: Rhannu datganiad i’r wasg mewn perthynas â chyfarfod Bwrdd Plismona cyntaf y PG, gan bwysleisio’r berthynas waith gadarnhaol rhwng y CHTh a’r PG**

### 4. Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Dywedodd y CHTh wrth y Bwrdd bod cyfarfod Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu wedi’i drefnu ar gyfer yr wythnos hon a fyddai’n cwblhau’r trefniadau ariannu. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â’r lefel gwasanaeth a ddarperir gan Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu a pha un ai a oedd yn bodloni gofynion gweithredol. Dywedodd y PG y byddai’n ystyried hyn ymhellach.

Rhoddodd y CHTh drosolwg o’i ymgysylltiad â phartneriaid lleol, gan gynnwys Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus a’i ymgysylltiad mewn perthynas â’r agenda Trais yn erbyn Menywod. Dywedodd y CHTh y byddai Cynllun Heddlu a Throseddu drafft yn cael ei ystyried gan y Panel Heddlu a Throseddu ar 27/1/2017 ynghyd â’i gynigion mewn perthynas â phraesept 2017/18.

### 5a: Cylch Gorchwyl y Bwrdd Plismona (PB 2095)

Ymhellach i’r Diwrnod i Ffwrdd diweddar rhwng y CHTh a Phrif Swyddogion, cafwyd trafodaeth mewn perthynas â Chylch Gorchwyl y Bwrdd Plismona. Cytunwyd y byddai’r Cylch Gorchwyl yn cael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu trafodaethau diweddar ar drefniadau llywodraethu.

**Cam Gweithredu: Adolygu Cylch Gorchwyl y Bwrdd Plismona a’i ddiwygio er mwyn adlewyrchu trafodaethau diweddar**

**5b: Galluoedd Arbenigol (PB 2093)**

Roedd gan y CHTh bryderon ynghylch gwaith a oedd yn cael ei gyflawni gan Alluoedd Arbennig a sut ydoedd yn gysylltiedig â'r agenda rhanbarthol. Cytunwyd y byddai trafodaeth bellach yn cael ei chynnal yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona.

**5c: Diweddariad ynglŷn â'r adolygiad o deledu cylch cyfyng (PB 2044)**

Mae ystyriaeth yn cael ei roi i ofynion Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd. Bydd manylion pellach ar gael ymhen 4-5 wythnos.

**5d: Cwynion ynghylch trwyddedu arfau saethu (PB 2092)**

Mae thema gyson o ran amseroldeb y gwaith. Roedd y data diwethaf yn dangos gwelliant, ond roedd dal rhai achosion dal ar y gweill ers misoedd. Roedd y PG wedi cwrdd â'r adran, ac roedd yn ymwybodol o'r heriau diweddar o ran staffio. Roedd hyn yn cael sylw.

**5e: Costau'r cwrs Ride**

Diolchodd y CHTh i'r heddlu am y papur. Cafwyd trafodaeth. Cynghorodd y PSA y byddai'n briodol bod yn glir ar gostau cyn gosod y ffi. Cytunodd y CC bod angen gwneud hyn, ond roedd yn teimlo ei bod hi'n bwysig symud ymlaen ac adolygu ar ôl hynny yn ei dro.

**Penderfyniad: Derbyn yn argymhelliad a Dyfed-Powys i godi £95 ar gyfer y cwrs RIDE, sef y cyfartaledd cyffredinol ac sy'n unol â Heddlu De Cymru**

**5f: Gwobrwyo cytundeb – gwasanaethau dadansoddol fforensig**

Cadarnhaodd y PG bod y cynnig yn cyflwyno arbedion sylweddol ac awgrymodd y dylid gwobrwyo'r cytundeb. Awgrymodd y PSA y dylai aelodau ystyried y mater mewn 12 mis er mwyn monitro'r sefyllfa.

**Penderfyniad: Cymeradwyodd y CHTh wobrwyo'r cytundeb ar gyfer gwasanaethau dadansoddol fforensig fel sy'n cael ei amlinellu yn yr adroddiad**

**Cam Gweithredu: Trafod adolygiad o'r cytundeb gwasanaethau dadansoddol fforensig mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona ymhen 12 mis**

**5g: Gwobr tendr sengl – tystiolaeth olion bysedd**

Nodwyd bod yr adroddiad wedi'i ddwyn i'r fforwm hwn oherwydd y gwerth ac oherwydd y natur tendr sengl, a oedd angen cymeradwyaeth y PSA. Cytunodd pawb i symud ymlaen â'r wobr.

**Penderfyniad: Gwobrwyo'r cytundeb ar gyfer gweithfan delweddu olion bysedd i Foster and Freeman am gost o £72,380.99 heb gynnwys TAW**

**Unrhyw Fusnes Arall**

***Ystadau***

Rhoddodd y PSA wybodaeth i Aelodau'r Bwrdd mewn perthynas â phrynu'r tir ar gyfer dalfa Sir Gaerfyrddin. Dywedodd y PG wrth y CHTh ei fod yn fodlon o safbwynt gweithredol bod y lleoliad arfaethedig yn bodloni gofynion, ac o'r herwydd, cytunwyd y dylid symud ymlaen â'r pryniant.

**Penderfyniad: Gwneud cynnydd o ran prynu tir ar gyfer dalfa Sir Gaerfyrddin**

***Gorsaf Heddlu Aberhonddu***

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â dyfodol Gorsaf Heddlu Aberhonddu. Ymrwymodd y PG i ystyried y gofynion gweithredol a chynghori'n unol â hynny.

**Cam Gweithredu: Ystyried y gofynion gweithredol mewn perthynas â Gorsaf Heddlu Aberhonddu**

***Ariannu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro***

Gwnaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro gais am gyfraniad ariannol o hyd at £5,000 tuag at gynnal gwaith y Bwrdd. Er bod y CHTh a'r PG yn teimlo eu bod nhw eisiau cefnogi egwyddor y cais, roedd angen gwybodaeth bellach cyn y gallant ymrwymo i hyn.

**Cam Gweithredu: CHTh i ysgrifennu at Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro'n nodi eu bod nhw eisiau cefnogi egwyddor y cais, ond bod agen gwybodaeth bellach cyn y gallant ymrwymo i hyn**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 16/01/17 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **I'w symud ymlaen gan** |
| **PB 2097** | **Rhannu datganiad i'r wasg mewn perthynas â chyfarfod Bwrdd Plismona cyntaf y PG, gan bwysleisio'r berthynas waith gadarnhaol rhwng y CHTh a'r PG** | **SCHTh** |
| **PB 2098** | **Adolygu Cylch Gorchwyl y Bwrdd Plismona a'i ddiwygio er mwyn adlewyrchu trafodaethau diweddar** | **CM** |
| **PB 2099** | **Trafod adolygiad o'r cytundeb gwasanaethau dadansoddol fforensig mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona ymhen 12 mis** | **SCHTh i drefnu** |
| **PB 2100** | **Ystyried y gofynion gweithredol mewn perthynas â Gorsaf Heddlu Aberhonddu** | **PG** |
| **PB 2101** | **CHTh i ysgrifennu at Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro'n nodi eu bod nhw eisiau cefnogi egwyddor y cais, ond bod agen gwybodaeth bellach cyn y gallant ymrwymo i hyn** | **CHTh** |